Cenn@d
30 Medi 2026
Rhifyn 292
WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG
a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru
UBC BUW

# Dathlu 60 mlynedd o weithgarwch y Cyngor Ysgolion Sul

Mae'r elusen Gristnogol Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed eleni. Sefydlwyd y Cyngor gan bum enwad Cymreig yn ôl yn 1966, sef yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, yr Eglwys yng Nghymru, y Methodistiaid a'r Presbyteriaid. Fe ddaeth y pum enwad at ei gilydd er mwyn cydweithio i ddarparu adnoddau Cymraeg ar gyfer eu heglwysi, ac o'r cychwyn cyntaf buont yn bartneriaid llawn yn y gwaith, gan ariannu a chefnogi'r gwaith yn ymarferol. Diolch i bawb a fu'n rhan o'r stori, yn weithwyr ac yn wirfoddolwyr, heb anghofio aelodau ac ymddiriedolwyr y Cyngor.




Mae llawer i ddiolch amdano dros gyfnod o 60 mlynedd, o ddyddiau cynnar cyhoeddi *Beibl Lliw y Plant* a'r cylchgrawn *Antur*, i drefnu gwersylloedd a gornestau chwaraeon i blant, sefydlu gwasg gyhoeddi Cyhoeddiadau'r Gair, a bod yn un o bartneriaid gwreiddiol cwmni Roots for Churches sy'n darparu llu o adnoddau newydd bob wythnos. Yng nghyfnod y swyddogion datblygu roedd modd ymweld ag ysgolion Sul lleol, gan gynnig hyfforddiant ac adnoddau, a chario tomenni o lyfrau i bob rhan o Gymru. Bydd llawer yn cofio'r tripiau ysgol Sul i Butlins ac Oakwood, oedd yn denu 10,000 o blant yn flynyddol yn eu hanterth yn y 90au. Bu'r cwis Beiblaidd a gornestau chwaraeon yn hynod boblogaidd am flynyddoedd, a chanfod yr ysgol Sul fuddugol dros Gymru yn y meysydd hyn. Cyflwynwyd cannoedd o fedalau Gee i ffyddloniaid yr achos, gan gynnwys nifer o fedalau anrhydedd i rai a wnaeth gyfraniad nodedig yn genedlaethol i waith yr ysgol Sul yng Nghymru.

Datblygodd y gwaith cyhoeddi i gynnwys llyfrau a Beiblau lliwgar i blant, dewis o werslyfrau ac esboniadau, ynghyd â llyfrau defosiynol i oedolion, gan gefnogi gwaith yr eglwysi lleol. Cafwyd llyfrau gyda sticeri, jig-sos, effeithiau sain a golau, yn ogystal â llyfr a llechen ddigidol ynddo. Bellach cyhoeddwyd dros 1,100 o deitlau amrywiol gan y wasg honno. Bydd adnoddau addysgol fel Cyfres y Gair, *Sbloets*, *Gôl* a *Stilio*, *Ar y Ffordd*, *Golau ar y Gair* a Chyfres Stori Duw yn gofiadwy i lawer o blant ac athrawon fel cynlluniau dysgu yn yr ysgol Sul, gan fabwysiadu dull pob oed o ddysgu pawb gyda'i gilydd ar yr un thema. Yn eu tro, daeth mentrau fel Agor y Llyfr, Emaus ac Alffa, Llan Llanast a Chwarae a Chredu ac Ap Arwyr Ancora yn Gymraeg, gan gynnig syniadau a dulliau amgen o weithio gyda phlant. Ym maes cerddoriaeth cafwyd llyfrau emynau a chaneuon *Glas Glas Blaned* a *Canu Clod*, gyda dros 500 o ganeuon cyfoes i blant.

Llwyddwyd i gofleidio'r byd digidol newydd, gan fentro i fyd adnoddau arloesol ar y we, yn ffilmiau, emynau ac adnoddau Beiblaidd digidol. Erbyn hyn daeth cyfle i fentro i fyd pellgyrhaeddol a heriol Deallusrwydd Artiffisial (AI) hefyd. Yn y dyfodol, bydd yn her ceisio sicrhau bod y gwirionedd oesol am gariad Iesu yn cael ei gyflwyno'n gywir, gydag integriti, ac mewn dull sy'n ddealladwy i genhedlaeth newydd eto o blant. Tybed i ble aiff byd TikTok ac Instagram â'r genhadaeth i'r dyfodol?

Erbyn hyn mae gan y Cyngor bum gwefan, yn cynnwys pob math o ddeunydd i gefnogi ysgolion Sul ac addysg Gristnogol yn ehangach. Yn




Pererindod y Saith Dinas
Tudalen 2
Cofio a Dathlu bywyd Eifion Wyn
Tudalen 3
Myfyrdod ar gyfer y Diolchgarwch
Tudalen 7

eu plith y mae gwefan www.beibl.net a www.gobaith.cymru, sy'n gartref i gyfieithiadau o emynau cyfoes a rhai gwreiddiol yn Gymraeg. Mae llawer o adnoddau i'w cael yn rhad ac am ddim bellach, a gellir eu lawrlwytho'n syth i'w hargraffu neu eu taflunio.

Er mai drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn unig y mae'r Cyngor yn gweithio, cafwyd cyfle i gyfrannu at y gwaith ar lwyfan ehangach yn ogystal drwy ymroi i waith rhwydwaith plant eglwysi Prydain ac Iwerddon a'r rhwydwaith gweithwyr plant Ewropeaidd. Ffrwyth y gwaith hwnnw oedd cynhyrchu pecynnau i hyfforddi athrawon ysgolion Sul fel *Caleidosgob* a *Dal d'afal*, ac yn fwy diweddar gwrs ar lein drwy wefan TheologyX.

Teimlwyd o'r dechrau ei bod hi'n bwysig bod y Cyngor yn weledol ac yn bresennol yn nigwyddiadau'r enwadau ac ar y maes cenedlaethol ehangach. Drwy gydol yr amser llwyddwyd i fod yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Fawr ac mewn digwyddiadau enwadol, gan gyfarfod pobl wyneb yn wyneb i gynghori a chefnogi. Trefnwyd teithiau adnoddau, gan ymweld â thua 30 canolfan bob blwyddyn.

Mae'r dirwedd grefyddol yng Nghymru wedi newid yn ddirfawr ers 1966, pan oedd trwch y plant o aelwydydd Cymraeg yn blant o gefndir eglwysig ac ysgol Sul. Yn 1966 roedd yna ysgol Sul ym mhob un capel, bron, a degau o filoedd yn mynychu'r amrywiol ysgolion Sul. Ond dros y blynyddoedd gwelwyd prysurdeb cynyddol ar y Sul o ran chwaraeon a digwyddiadau eraill sy'n denu plant. Yn ogystal, gwelwyd patrymau teuluol yn newid yn sylweddol, yn arbennig yn dilyn y pandemig a'r cyfnod clo, a gwelwyd llawer o'r gwaith yn diflannu dros nos. Fodd bynnag, diolch am y cylchoedd a aeth ati i arloesi, gan sefydlu grwpiau canol wythnos a mentrau cenhadol newydd. Diolch am ddygnwch a dyfalbarhad yr eglwysi hynny sy'n dal i ddarparu ar gyfer anghenion ysbrydol plant Cymru mewn amryw ffyrdd.

Diolch am gefnogaeth y pum enwad a gafodd y weledigaeth o sefydlu'r Cyngor yn 1966, ac am eu nawdd cyson. Gweddïwn am arweiniad clir ac am fendith Duw wrth geisio addasu a darparu ar gyfer yr eglwys a gweithgarwch plant ymlaen i'r dyfodol.




## Pererindod Saith Dinas ar draws Cymru

Nod y daith weddi hon yw dod ag eglwysi Cymru ynghyd mewn undod, gweddi a chenhadaeth drwy saith cynulliad gweddi strategol ar draws saith dinas Cymru yn 2026. Mae'r fenter hon yn deillio o weledigaeth y mudiad 24–7 Prayer: i ddeffro'r Eglwys i weddïo, i ysgogi eiriolaeth, ac i freuddwydio eto gyda Duw dros ddinasoedd a chenhedloedd.

Mae Salm 126 yn gweithredu fel symbyliad ar gyfer y daith, gan roi llais i ddychweliad ysbrydol, adnewyddiad a deffroad: 'Pan adferodd yr ARGLWYDD ffawd Seion, yr oeddem fel rhai oedd yn breuddwydio.'

Mae gan Gymru etifeddiaeth gyfoethog o adfywio, cenhadaeth a gweddi. O Ddiwygiad 1904/1905 i fynegiadau lleol o addoliad ac eiriolaeth ar draws y cenedlaethau, mae Duw wedi cynhyrfu'r genedl dro ar ôl tro. Eto i gyd, mae llawer o arweinwyr a chredinwyr yn synhwyro galwad newydd—un sy'n gwahodd Cymru i godi ei llygaid y tu hwnt i'r presennol ac i freuddwydio eto.

Mae Taith Meini Ebeneser yn weithred symbolaidd ac ymarferol o undod—yn galw'r Eglwys ynghyd, fesul dinas, i nodi'r hyn y mae Duw wedi'i wneud, i fendithio'r hyn y mae Ef yn ei wneud, ac i baratoi ar gyfer yr hyn y bydd Ef yn ei wneud. Yn yr Ysgrythur, sefydlwyd meini Ebeneser fel arwyddion o gofio a ffydd. Adeiladwyd yr allor yn 1 Samuel 7 fel datganiad: 'Hyd yma y mae'r ARGLWYDD wedi ein cynorthwyo.' Ond nid atgof yn unig oedd y meini hyn—roedden nhw'n ysgogi ffydd yn yr hyn y byddai Duw yn parhau i'w wneud yn y dyfodol. Mae Taith Meini Ebeneser yn cofleidio'r ddau safbwynt hyn: diolchgarwch am y gorffennol a ffydd ar gyfer y dyfodol. Mae gosod allorau gweddi parhaol ym mhob dinas yn ddatganiad proffwydol fod eiriolaeth yn perthyn yn y sgwâr cyhoeddus, ac nid o fewn adeiladau eglwysig yn unig.

Byddwn yn gosod y meini hyn mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, gan ddechrau yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd fis Hydref eleni.

**Caerdydd – 01/10/2026**

**Abertawe – 02/10/2026**

**Casnewydd – 03/10/2026**

Am fwy o wybodaeth ewch i:

https://www.24-7prayergb.com/pererindod-y-saith-dinas/

## *Y Traethodydd* ar faes y Brifwyl




Cynhaliwyd cyfarfod pwysig bnawn Mawrth, 2 Awst, ar faes Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, i hyrwyddo gwerthiant *Y Traethodydd*, yr hynaf o'n cylchgronau llenyddol, a chodi'i broffil yn gyffredinol.

Yr Archdderwydd Mererid, hithau'n aelod o'r Bwrdd Golygyddol, a groesawodd y gynulleidfa i Babell Prifysgol Aberystwyth, i wrando ar sylwadau'r newyddiadurwr Dylan Iorwerth a chlywed crynodeb o hanes sefydlu'r cylchgrawn yn 1845 gan y Dr Eryn White, hithau hefyd yn aelod o'r Bwrdd Golygyddol.

Trafododd Dylan yr heriau o gyhoeddi cylchgrawn print Cymraeg mewn oes ddigidol, ond anogodd ni i fwrw ymlaen am fod cyn lleied o lwyfannau ar gyfer cyhoeddi deunydd safonol bellach ar gael. Clywsom gan Eryn mai breuddwyd Lewis Edwards oedd sefydlu'r *Traethodydd* ar batrwm cylchgronau Saesneg fel *Blackwood's Magazine*, *The Quarterly Review* ac eraill, er mwyn ehangu cylch diwylliant y Cymry ac ehangu eu gwybodaeth o'r byd. Gyda chymaint o'r cylchgronau hynny wedi hen ddiflannu, y rhyfeddod yw bod *Y Traethodydd* yn dal i ffynnu.


Cafwyd trafodaeth i ddilyn dan gadeiryddiaeth y Golygydd, yr Athro D. Densil Morgan. Soniwyd am yr angen i fod yn ddigon ystwyth i ymateb i anghenion yr oes a'r un pryd sicrhau deunydd safonol a fydd yn cynnal diddordeb y darllenwyr.

Mynegwyd gofid nad oedd y cylchgrawn bellach yn derbyn arian cyhoeddus ond diolchwyd i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am barhau i noddi'r *Traethodydd* fel rhan o'i chenhadaeth. Y pris yw £7.50 y rhifyn, bedair gwaith y flwyddyn neu £30 am flwyddyn gyfan. Gellir ei archebu trwy gysylltu â Rhian Melhuish yn swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Capel y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD.


Cytunodd pawb fod y cyfarfod yn un buddiol, a hyderwn, ar ôl 181 o flynyddoedd, y bydd *Y Traethodydd* yn mynd o nerth i nerth.

**D. Densil Morgan**

## Cofio Eifion Wyn yn Eifionydd



**Ddydd Mawrth, 13 Hydref, ar achlysur 100 mlynedd ers marw Eifion Wyn, gwahoddir pobl i ymgasglu ger ei fedd ym mynwent Chwilog am 2.00 i gofio am ei fywyd ac i ganu ei emyn 'Efengyl Tangnefedd'. Oddi yno bydd cyfle i gerdded i gapel Siloh, Chwilog, lle cawn ddarlith yn cael ei thraddodi gan Tudur Dylan Jones ar hanes y bardd a'r emynydd.**






**Hefyd y noson honno, cyflwynir darlith gan Dr Gwynne Wheldon Evans yng nghapel y Porth, Porthmadog.**

**Yna, ar 18 Hydref cynhelir Cymanfa Ganu yng nghapel Peniel, Tremadog, er mwyn canu detholiad o emynau Eifion Wyn.**



# SOULED OUT Haf 26 yn y Bala

## Gan Efa Jones o Gaernarfon ac Angharad Rhys o Landderfel



### Meddai Efa Jones ...

Yr haf hwn, cefais y cyfle i dreulio pum noson ar gwrs Souled Out yn y Bala. Mae'n wythnos sy'n llawn gweithgareddau hwyl, siaradwyr ysbrydoledig, a digon o amser a lle i addoli a gwrando ar lais Duw.

Un o'r pethau gorau i mi bob tro rwy'n dod yn ôl yw cael bod yn rhan o gymuned mor gyfeillgar a gweld hen ffrindiau eto. Drwy gydol yr wythnos, rydyn ni'n gallu annog ein gilydd drwy rannu tystiolaethau am yr hyn mae Duw wedi bod yn ei wneud yn ein bywydau. Mae cael yr amser i addoli a gweddïo gyda'n gilydd hefyd bob amser yn uchafbwynt i mi. Mae rhywbeth mor arbennig am fod yng nghanol cymaint o bobl sy'n gyffrous am yr hyn mae Duw yn ei wneud yng Nghymru, ac roedd modd teimlo'r cyffro hwnnw drwy gydol yr wythnos.




Cawsom y cyfle i wrando ar nifer o siaradwyr gwahanol a chlywed negeseuon oedd yn ein herio ac yn ein hannog. Un neges a wnaeth argraff arbennig arna i oedd y syniad bod diwylliant yn ceisio dweud wrthym beth sydd ei angen arnom, ond mai Duw sy'n gwybod beth sydd ei angen arnom ni mewn gwirionedd. Roedd yn neges mor syml, ond mor bwerus, ac yn ein hatgoffa mai yn Nuw y mae popeth sydd ei angen arnom yn y pen draw.

Un o uchafbwyntiau eraill yr wythnos oedd diwrnod y trip! Cawsom ddiwrnod llawn hwyl yn gwneud gwahanol weithgareddau fel trampolinio, bowlio deg a pheintio crochenwaith, cyn gorffen y diwrnod gyda phryd o fwyd gyda'n gilydd. Roedd yn gyfle gwych i dreulio amser gyda ffrindiau newydd a hen, mwynhau cwmni ein gilydd, ac yn syml – cael hwyl!

Mae dod yn ôl i Souled Out bob amser yn teimlo fel dod adref. Mae'n wythnos mor arbennig, yn llawn anogaeth a chyfleoedd i dyfu yn fy ffydd. Rwy'n edrych ymlaen yn barod at yr un nesaf!



*Jo a Ceinwen yn arwain yr addoliad*




*Sam yn rhannu ei stori ffydd, mewn cyfweliad gyda Siôn*



*Criw o ffrindiau'n cael llun!*



*Gêm bêl-droed ar ddiwrnod braf*

## Meddai Angharad Rhys ...

Thema Souled Out eleni oedd 'Y Bywyd Gorau Un', ac roedd y sesiynau'n gyfle i edrych ar sut mae hyn yn gallu edrych yn ein perthynas bersonol ni â Duw, a sut rydyn ni'n byw hyn drwy rannu neges Iesu.

Un o fy uchafbwyntiau personol am yr wythnos oedd cael y cyfle i weld fy ffrind yn dod i Souled Out am y tro cyntaf. Roedd ei gweld hi'n dod i adnabod pobl ac yn cael ei chroesawu gan gymuned Souled Out yn arbennig iawn. Roedd hi hefyd wedi tyfu cymaint yn ei ffydd yn ystod yr wythnos, ac wedi profi presenoldeb Duw.

Roedd lot o weithgareddau hwyl yn digwydd yn ystod yr wythnos, fel 'Colour Chaos', trip i AirHop, Caffi Creadigol ac 'After-hours' bob nos. Roedd y rhain yn gyfle llawn hwyl i ddod i adnabod pobl yn well a threulio amser gyda ffrindiau.

Un uchafbwynt arall gen i oedd y grwpiau bach. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr iawn, ar ôl y sesiynau, i fynd yn ddyfnach a thrafod beth oedd wedi ein taro ni o'r sesiynau. Roedd hefyd yn gyfle i weddïo ac annog ein gilydd.

Fe wnes i'n sicr gael bendith fawr o'r wythnos! Roedd o'n gyfle i gael fy herio ac i fynd yn ddyfnach yn fy ffydd, ac i ddod o flaen Duw yn gwbl agored. Mae cael gwneud hyn mewn cymuned fel yr un a gawn ar gwrs Souled Out yn yr haf a'r gweithgareddau eraill sy'n cyd-fynd drwy'r flwyddyn yn gyfle mor arbennig, ac yn brofiad sydd yn sicr wedi cael effaith fawr ar fy mywyd.

Dwi'n edrych ymlaen i'ch gweld chi yna'r flwyddyn nesaf!

**Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma gydag ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net**

## Taro'r Post

Annwyl Olygydd,

Codais i ddweud gair am yr Ailstrwythuro yn y Gymanfa ym Mhorthmadog ond newidiais fy meddwl yn sydyn a dweud rhywbeth nad oedd fawr o werth. Sylweddolais fy mod angen mwy o gadarnhad i'r hyn yr oeddwn am ei ddweud ac rydw i'n falch i mi ohirio'r dweud – na, y gofyn – tan y llythyr hwn. Ond ni fyddai llythyr byr yn *Cenn@d* (mwy nag ychydig funudau yn y Gymanfa) yn ddigon i godi ambell gwestiwn wedi'r trafod. Yr wyf felly wedi rhoi fy ymateb ar wefan Cristnogaeth 21.

Mae darllenwyr *Cenn@d* yn gyfarwydd ag erthyglau a blogiau Cristnogaeth 21 ac fe wn fod gwerthfawrogi mawr arnynt. Dyma gyfle felly i'r darllenwyr ymweld â gwefan Cristnogaeth 21, sy'n ugain oed eleni ac yn 'trafod a dehongli Cristnogaeth gyfoes'. Darllenwch rai o'r blogiau, ystyriwch danysgrifio i dderbyn neges wythnosol a dewch i'r gynhadledd neu'r encil blynyddol.

Er bod cynnwys yr erthygl yn codi o drafodaeth o fewn yr Eglwys Bresbyteraidd, mae'r materion a godir yn llawer ehangach na hynny.


Gweler y ddogfen Mwy am yr Ailstrwythuro ar wefan www.cristnogaeth21.cymru yn yr adran adnoddau

*Pryderi Llwyd Jones*

Cristnogaeth 21

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 37

# Ymson Abisag

Fel Sinderela fy nghyfnod, dewiswyd fi am fy mod yn hardd ac yn addas i'r diben. Roedd y brenin yn heneiddio ac angen rhywun i'w gadw'n gynnes. Felly, fe'm gosodwyd yn fy lle i ymgeleddu Dafydd. Sylwais fod ei nerth yn pallu fesul dydd a fesul awr; roedd fy egni innau felly'n rymus ac yn werthfawr. Byddai rhai'n dweud nad oedd gennyf ddewis – yntau'n frenin a minnau'n ifanc a diniwed; serch hynny, arhosais yno'n driw wrth ei ochr.

Os ewch i chwilio amdanaf yn y cofnodion, gwn na fydd pentyrru geiriau yno amdanaf. Hawdd felly ichi i fy anghofio, ac efallai na fu ichi sylwi arnaf hyd yn oed cyn heddiw. Ond ar y pryd doeddwn i ddim yn ddibwys. Gofalais am frenin oedd yn byw mewn oerfel deublyg: cryndod corfforol ac ofn marwolaeth.

Tu fas i furiau ei ystafell roedd dynion wedi dechrau cecru ynglŷn â dyfodol y frenhiniaeth: rhai'n cynllwynio, rhai'n trafod, eraill yn dewis eu hochr. Crwydrai'r sibrydion yn llechwraidd fel cysgodion rownd corneli'r palas. Roedd Adonia, un o feibion Dafydd, eisoes wedi cyhoeddi ei fod yn dymuno bod yn frenin. Gwyddai pawb mai mab Bathsheba, Solomon, yr oedd Dafydd wedi'i ddewis i'w olynu, ond roedd Adonia yn parhau i gynhyrfu'r dyfroedd. Gwnaeth bopeth yn ei allu i'w sefydlu ei hun ac roedd nifer fawr yn ei gefnogi. Os na fyddai Bathsheba'n gweithredu, fe fyddai'n rhy hwyr.

Ro'n i yno, yn y gornel, pan fentrodd Bathsheba at erchwyn gwely Dafydd. Llwyddodd i'w berswadio a chydsyniodd Dafydd i'w dymuniad: Solomon fyddai'r brenin nesaf.

Ond roedd Adonia'n olygus ac ro'n i wedi'i weld yn syllu arnaf. Roedd cyswllt rhyngom yn sicr, a gwyddai'n iawn fy mod yn rhan o gylch cyfrin Dafydd. Felly, pe byddai'n fy mhriodi, byddai hynny'n rhoi grym a siawns newydd iddo i gipio'r frenhiniaeth.

Parhau i ofalu'n ffyddlon wnes i ac felly y bu hyd nes y cymerodd Dafydd ei anadl olaf. Roedd yr enaid y bûm yn gofalu amdano wedi gorwedd yn llonydd am y tro olaf, a fedrwn i fyth ei gynhesu eto. Anodd hynny, a minnau wedi cynefino â'm dyletswydd.

Yna, unwaith eto cefais fy nal ynghanol trobwll. Doedd gen i ddim llais, ond roedd pawb yn siarad amdanaf. Doedd gen i ddim dewis, ond roedd pawb yn ceisio penderfynu drosof. Plediodd Adonia ar Bathsheba i fynd at ei mab, Solomon y brenin, i ofyn am ganiatâd i fy mhriodi i. Syndod imi oedd deall iddi gytuno. Ond, wrth gwrs, fe welodd Solomon drwy'r tric. Lladdwyd Adonia yn fuan wedyn. Anwybyddwyd fi wedi hynny, heb ystyried fy nheimladau am eiliad.

Holais yn aml ai cynhesu rhywun arall fyddai fy unig swyddogaeth? Beth fyddai wedi digwydd pe bai Adonia wedi byw, wedi fy ngweld am yr hyn yr oeddwn i, ac nid am yr hyn y gallwn ei roi iddo. Roedd gen i enaid hardd yn ogystal. Dyhëwn am gael fy ngweld.

**Holi**

- Cyflwynir Abisag inni'n unig fel rhywun hardd sy'n cyflenwi gwres a gofal i Dafydd. Pam, yn eich barn chi, nad ydym yn clywed ei llais? Sut fyddai eich ymateb yn newid pe bai'r stori'n cael ei hadrodd o bersbectif Abisag, neu Bathsheba, neu hyd yn oed Adonia?
- Mae rhywbeth yn waelodol anghyfforddus am y stori hon. Ymddengys nad oedd gan Abisag unrhyw ran yn ei ffawd ei hun. Beth os mai'r ymateb mwyaf gonest yw derbyn y stori fel un sy'n ein gwneud yn anghyfforddus, yn hytrach na cheisio troi dioddefaint Abisag yn wers gadarnhaol?
- Pe bai stori Abisag yn cael ei hadrodd o'r newydd heddiw, pa gwestiynau fyddai'n codi? Beth am barch, urddas, cydsynio, ecsbloetio, cyfiawnder a thegwch?
- Oes gwahaniaeth rhwng dweud 'mae'r Beibl yn cofnodi hyn' ac 'mae'r Beibl yn cefnogi hyn'? Ydy'r Ysgrythur weithiau'n rhoi llais i'r di-lais, er mor gynnil hynny?

**Gweddi**

Iôr annwyl, weithiau 'dyw pethau
ddim yn synhwyrol inni.
Yn aml, ry'n ni'n ymdrechu i roi
darnau'r jig-so yn eu lle,
ond yn methu.
Rwyt ti'n Dduw sy'n ein derbyn
yn gyfan:
ein deallusrwydd a'n diffygion,
ein hymdrechion a'n cyflawniadau.
Rwyt ti'n ein dathlu ac yn ein caru
fel yr ydym.
Diolch am y Gras sy'n gofalu'n driw
amdanom ac yn ein cynhesu. Amen.

*Siân Meinir*

BBC radio cymru S4C

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 4 Hydref 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 4 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Emynau Eifion Wyn yng nghwmni Iwan Llewelyn Jones

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 4 Hydref, am 12:00yp**
Gwasanaeth diolchgarwch o dan arweiniad Elin Maher, Casnewydd

**S4C**
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 4 Hydref**
Ni fydd rhaglen yr wythnos hon oherwydd y gêm bêl-droed rhwng Cymru a Denmarc

# Myfyrdod yng nghyfnod y Diolchgarwch

## gan W. Bryn Williams, Pwllheli

'Peidiwn â blino ar wneud daioni' (Galatiaid 6:9)

Darlleniadau ac emynau a awgrymir i gyd-fynd â'r myfyrdod:
Salm 65:9–13;
Galatiaid 6:6–10;
gorffen gyda dameg y ffŵl cyfoethog: Luc 12:13–21

Emynau: 4, 816, 844 (*Caneuon Ffydd*)

Mae cyfnod y diolchgarwch yn amser arbennig pan fyddwn ni'n oedi o brysurdeb bywyd ac yn cofio'n fwriadol am ddaioni Duw.
Rydym yn diolch i Dduw:

am deulu,
am ein cartrefi,
am fwyd ar ein byrddau,
am iechyd a nerth,
am ffrindiau,
ac am y bendithion niferus rydyn ni weithiau'n
eu cymryd yn ganiataol.

Ond mae diolchgarwch yn fwy na dim ond cyfri bendithion. Mae diolchgarwch hefyd yn golygu cofio ffyddlondeb Duw pan nad ydy'r cynhaeaf wedi cyrraedd eto.

Oherwydd mae 'na adegau pan fyddwn ni'n gweddïo, a ddim yn gweld ateb ar unwaith.

Mae 'na adegau pan fyddwn ni'n ymdrechu'n galed, ond eto'n meddwl nad oes neb yn cymryd sylw o'n hymdrechion.

Mae 'na adegau pan fyddwn ni'n rhoi, ond yn meddwl nad oes dim ymateb.

Mae 'na adegau pan fyddwn ni'n meddwl ein bod yn gwneud yr hyn sy'n iawn, ond eto mae bywyd yn dal i fod yn anodd.

Ar yr adegau hynny mae geiriau Paul yn Galatiaid 6:9 yn siarad yn rymus hefo ni: 'Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedi'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond i ni beidio â llaesu dwylo.' Ymadrodd da am 'laesu dwylo' ydy 'na fyddwn yn rhoi'r gorau iddi'. Mae'r adnod yn ein hatgoffa nad ydy ein llafur yn yr Arglwydd byth yn cael ei wastraffu.

Heddiw, wrth i ni ddiolch i Dduw, rydyn ni'n cofio Ei fod:

yn maddau,
yn darparu,
yn amddiffyn, ac
yn ffyddlon.

Mae'r ffermwr yn gwybod bod tymor i blannu a thymor i fedi. Pan fydd yn plannu hedyn yn y ddaear, mae 'na gyfnod pan nad oes dim byd i'w weld yn digwydd. Ac eto, o dan yr wyneb, mae gwreiddiau'n datblygu ac mae bywyd yn tyfu.

Gall yr un peth fod yn wir amdanom ninnau. Efallai ein bod yn gweddïo dros rywun, ond eto ei bod ymddangos fel nad oes ateb i'r weddi. Mae Duw yn medru gweithio yn yr amlwg a hefyd, fel yr hedyn, o dan yr wyneb. Gall ein gweddi flynyddoedd yn ôl ddwyn ffrwyth heddiw. Fe all rhyw weithred o garedigrwydd a wnaethom ei dangos dro yn ôl fod wedi effeithio ar rywun yn ddyfnach nag rydyn ni'n ei wybod. Gall rhyw esiampl rydyn ni'n ei dangos heddiw ddylanwadu ar rywun ymhen blynyddoedd i ddod.

Dydyn ni ddim bob amser yn gweld y cynhaeaf ar unwaith, ond y mae Duw:

yn gweld yr hedyn,
yn clywed pob gweddi,
yn gweld pob tro rydyn ni'n mynd allan o'n ffordd
i helpu,
ac yn gweld pob gweithred o garedigrwydd.

Ac yn y cyfan yn sicrhau y 'cawn fedi'r cynhaeaf yn ei amser'.

Mae'r adnod yn cloi fel hyn: os na fyddwn yn 'llaesu dwylo'.

Dyma'r her ar gyfer tymor diolchgarwch 2026 – dal ati.

Efallai inni fod yn gweddïo ers amser am rywbeth arbennig neu dros rywun arbennig, a dim byd i'w weld yn digwydd.

Mae Gair Duw yn dweud bod yn rhaid dal ati, a pheidio 'llaesu dwylo', peidio â rhoi'r gorau iddi.

Mi fedrwn ni weddïo:

'Arglwydd, dwi ddim yn dallt pob dim,
ond dwi'n dy drystio Di.
Dwi ddim yn medru gweld ateb eto,
ond dwi'n diolch i Ti am Dy ffyddlondeb.
Dwi wedi blino,
ond drwy Dy nerth Di, mi wna i ddal ati.'

Ein cyfrifoldeb ni ydy bod yn ffyddlon:
mae'r cynhaeaf yn perthyn i Dduw.
Felly, mae tymor diolchgarwch yn ein hatgoffa:
i edrych yn ôl er mwyn diolch i Dduw
am yr hyn rydyn ni wedi ei dderbyn yn barod,
i edrych o'n cwmpas er mwyn sylweddoli
bendithion heddiw,
ac i edrych ymlaen mewn ffydd,
gan drystio yn y cynhaeaf sydd ddim yn amlwg i ni eto.
Os wyt ti mewn cyfnod o hau heddiw,
wel, dal ati i hau.
Os mai mewn cyfnod o aros a disgwyl wyt ti,
wel, dal ati i drystio.
Os wyt ti wedi blino,
wel, gofynna am nerth i beidio â rhoi'r gorau iddi.

Mae Galatiaid 6:9 yn rhoi'r addewid yma i ni: 'Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedi'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond i ni beidio â llaesu dwylo.'

Gweddïwn eleni y bydd ein diolchgarwch yn adnewyddu ein ffydd, yn cryfhau ein gobaith ac yn rhoi'r hyder i ni barhau i wneud daioni 'nes daw'r cynhaeaf'.

# Bedyddio yng Nghwm Gwaun



Ddydd Sul, 23 Awst, bu achos mawr o ddathlu yn Jabes, Cwm Gwaun, pan fedyddiwyd naw o'r ardal leol gan y Parchg Alwyn Daniels. Dyma'r bedydd cyntaf yno ers rhai blynyddoedd a daeth tyrfa sylweddol ynghyd i fod yn dystion i'r achlysur arbennig. Y naw oedd Megan Davies, Alaw Thomas, Heulwen Morse, Steffan a Siôn Wilson, Aled a Siôn Lloyd, Dafydd Eynon a Rhys Colnet.

Yn dilyn y bedydd, cafwyd oedfa gymun yn y capel i dderbyn y naw aelod yn swyddogol, ynghyd â dwy aelod newydd arall, sef Mrs Rhian Davies a Mrs Teleri Jenkins-Davies. Yn ystod y gwasanaeth soniodd y Parchg Alwyn Daniels am bwysigrwydd perthyn – nid yn unig i gapel ac Eglwys Crist ond hefyd i'r gymuned leol ac ehangach.

Ar ddiwedd yr oedfa diolchwyd i'r Gweinidog am barhau i wasanaethu yng nghapeli Cylch Carn Ingli, er ei fod wedi ymddeol ers rhai blynyddoedd. Diolchwyd hefyd am ei waith diflino dros y blynyddoedd gyda phobl ifanc yr ardal. Tysteb o'i ymroddiad ef oedd gweld cynifer ohonynt yn dewis dod yn aelodau ar y diwrnod arbennig hwn.

Yn dilyn yr oedfa gwahoddwyd pawb i'r festri, lle'r oedd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi, a chafwyd cyfle i gymdeithasu ymhellach. Roedd wedi bod yn ddiwrnod i ddathlu a'i gofio.

# Ardddangosfa gelf arbennig yng Nghanolfan Pererin Mary Jones

Hyd at 16 Hydref, bydd arddangosfa gelf *Drawn to Imperfection* gan yr artist Dave Nevard i'w gweld yng Nghanolfan Pererin Mary Jones, yn Llanycil, ger y Bala.

Mae *Drawn to Imperfection* yn wahoddiad unigryw i gamu i mewn i straeon y Beibl drwy gyfrwng portreadau cyfoes a phwerus. Drwy waith celf ystyriol, trawiadol a diddorol Dave, daw cymeriadau a straeon Beiblaidd yn fyw mewn ffordd newydd – gan ysgogi'r meddwl a chynnig cyfle i ni edrych ar y straeon cyfarwydd hyn o safbwynt gwahanol.



I gyd-fynd â'r arddangosfa, mae llyfr hardd wedi'i gyhoeddi, ac ar gael yn y Ganolfan. Mae'r gyfrol yn cynnig cyfle i archwilio gwaith celf Dave yn fanylach, yn ogystal â'r straeon a'r syniadau sydd y tu ôl i'r portreadau. Mae'n ffordd hyfryd o barhau i ymgysylltu â'r arddangosfa ar ôl eich ymweliad.

I gloi'r arddangosfa, byddwn yn cynnal sesiwn Holi ac Ateb gyda Dave Nevard ddydd Gwener, 16 Hydref, am 7yh. Bydd hwn yn gyfle arbennig i glywed yn uniongyrchol gan Dave am ei waith, ei ysbrydoliaeth a'r straeon sydd y tu ôl i *Drawn to Imperfection*, yn ogystal â chael cyfle i ofyn eich cwestiynau eich hun.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.drawntoimperfection.com.

Peidiwch â cholli'r cyfle i weld yr arddangosfa arbennig hon ac edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu. Mae'r Ganolfan ar agor ddydd Mercher i ddydd Sul, 10yb–4yp.

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.